



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Gwasanaeth Cyngori Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru – Arolwg Cwsmeriaid 2017-18

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir yr arolwg.....	4
2.1 Diffinio effeithiolrwydd	4
2.2 Cyfyngiadau'r gwaith	5
3. Crynodeb o ganfyddiadau Arolwg Rheoli Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru	6
3.1 Rheoli datblygu – dehongli'r canlyniadau	6
3.2 Canlyniadau'r arolwg	6
3.3 Sylwadau a dderbyniwyd am wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru	7
3.4 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r canfyddiadau.....	8
4. Canfyddiadau o Arolwg Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru.....	8
4.1 Canlyniadau'r arolwg	9
4.2 Cynllunio datblygu – sylwadau ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru	10
Atodiad 1: Canlyniadau'r arolwg rheoli datblygu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol	11
Atodiad 2: Canlyniadau'r arolwg cynllunio datblygu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ...	18

1. Cyflwyniad

Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mehefin 2018, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau arolwg i sefydlu pa mor dda mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar ymgynghoriadau cynllunio a chynlluniau strategol yn cael ei dderbyn gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gwaith hwn. Cynhaliwyd trydydd arolwg, gan ofyn i ddatblygwyr am eu safbwyntiau, yn dilyn hynny. Cafodd canlyniadau'r arolwg hwn eu hadrodd mewn adroddiad ar wahân, sydd hefyd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ers iddo gychwyn yn 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adrodd yn rheolaidd am amseroldeb ei ymatebion fel rhan o'i adroddiad cynllun corfforaethol. Mae amseroldeb yn cynnig ffon fesur ddefnyddiol ar ba mor dda mae ein gwasanaeth cynllunio yn perfformio, ond mae'n rhoi mewnwelediad cyfyngedig ar yr hyn sy'n digwydd i'r cyngor ar ôl iddo gael ei dderbyn gan yr awdurdod cynllunio, neu'r ymgeisydd.

Nod yr arolygon effeithiolrwydd felly yw cael gwell mewnwelediad i'r agwedd hon ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, a, lle y bo'n berthnasol, nodi meysydd lle y gallai fod lle i wella.

Mae'r arolwg effeithiolrwydd cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015-2016. Mae'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu 2017-2018. Oherwydd y nifer gymharol fechan o ymatebion i'r ddau arolwg, mae angen cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau'r ddau arolwg. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn ond yn adrodd am ganfyddiadau arolwg 2017-18 ac nid yw'n ceisio nodi unrhyw dueddiadau.

Roedd canfyddiadau arolygon 2017-18 yn gadarnhaol gan fwyaf, gydag ychydig ymatebion negyddol yn unig i nifer cyfyngedig o gwestiynau yn dod i law.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth yr ymatebwyr yn awgrymu, er bod yr ymatebwyr gan fwyaf yn gadarnhaol am wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, y gellid gwneud rhai mân newidiadau i helpu i gyflenwi gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn well.

Gwelir canfyddiadau llawn yr arolwg yn Atodiad 1 a 2.

2. Cefndir yr arolwg

2.1 Diffinio effeithiolrwydd

At ddiben yr arolwg, mae effeithiolrwydd wedi cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

"*Gallu* Cyfoeth Naturiol Cymru i ddylanwadu ar brosesau cynllunio datblygu yn unol â'i ddiben o ddilyn rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol".

Gofynnwyd i staff awdurdodau cynllunio lleol am eu safbwyntiau ar lefel yr effaith roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chael ar eu penderfyniadau. Gan fod nifer o ffactorau gwahanol y mae'n rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth wneud eu penderfyniadau, roedd cwestiynau am effaith ein cyngor yn cael eu hategu gan amrediad o gwestiynau am *allu* Cyfoeth Naturiol Cymru i ddylanwadu.

Bydd y gallu hwn i ddylanwadu yn dibynnu ar amrediad o ffactorau, megis ansawdd ac eglurder ein cyngor ac ar ba gam mae'r cyngor yn cael ei roi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi nifer o egwyddorion ar gyfer ymgysylltu effeithiol, sy'n cael eu hamlinellu yn "Cynllunio Datblygu: Ein Datganiad Gwasanaeth ar gyfer Cyflawni". Felly mae'r arolygon cwsmer hefyd yn gofyn i staff awdurdodau cynllunio lleol am eu safbwyntiau ar y graddau y maent yn credu ein bod yn gweithredu'r egwyddorion hyn yn ein gwaith. Y gysail y tu ôl i hyn yw bod gweithredu'r egwyddorion a gyflwynwyd yn y Datganiad Gwasanaeth yn ofyniad ar gyfer gallu dylanwadu ar ganlyniadau cynllunio.

Mae safonau'r gwasanaeth yn cynnwys yr egwyddorion canlynol ar gyfer ymgysylltu Cyfoeth Naturiol Cymru â rheoli datblygu:

- **Ymgysylltu cynnar** – ceisio'n rhagweithiol dod o hyd i gyfleoedd i ymgysylltu â datblygwyr ac awdurdodau cynllunio ar y cam cyn gwneud cais i sicrhau bod lleoliad, cynllun a dyluniad datblygiad yn cael eu llywio gan gyfyngiadau amgylcheddol, a chyfleoedd ar gyfer gwelliant amgylcheddol, gan leihau felly oedi costus yn ystod y camau diweddarach yn y broses o wneud cais cynllunio.;
- **Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg** - canolbwyntio ein cyfranogiad ar gynigion sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg i ganolbwyntio ein hadnoddau ar y cynigion datblygu hynny sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol;
- **Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddatrysiadau** – nodi a hyrwyddo cyfleoedd i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys ymgorffori nodweddion treftadaeth naturiol i ddyluniad datblygiad arfaethedig i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd;
- **Cyngor clir** – sicrhau bod ein cyngor yn wrthrychol, yn gyson, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn gymesur, ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau, ein cyfrifoldebau a'n diben;
- **Tryloywder** – sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd yn y cyngor rydym yn ei ddarparu;

- **Gweithio trawsffiniol** – gweithio gyda sefydliadau perthnasol eraill pan fo prosiectau datblygu yn croesi ffiniau cenedlaethol;
- **Ymateb o fewn dyddiadau cau** – sicrhau bod y cyngor rydym yn ei ddarparu yn cael ei gyflwyno o fewn dyddiadau cau cytunedig neu statudol.

Mae'r canlyniadau yn Atodiad 1 a 2 wedi cael eu trefnu yn ôl yr egwyddorion hyn, gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o ble mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud yn dda, a lle gallai fod lle i wella.

2.2 Cyfyngiadau'r gwaith

Roedd y gyfradd ymateb i'r arolygon yn weddol isel, gyda saith awdurdod cynllunio lleol yn unig yn ymateb i'r arolwg rheoli datblygu, a saith arall yn darparu ymateb i'r arolwg cynllunio strategol.

Am y rheswm hwn, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau'r arolwg hwn ac yn arbennig wrth gymharu canfyddiadau'r arolygon hyn â'r rhai a wnaed yn y gorffennol, neu rai a wneir yn y dyfodol.

Oherwydd nifer isel yr ymatebion, dim ond dadansoddiad cyfyngedig a wnaed i sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir yma mor ystyrion a chywir ag y bo'n bosibl.

3. Crynodeb o ganfyddiadau Arolwg Rheoli Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r arolwg gwasanaeth rheoli datblygu yn cwmpasu'r gwasanaeth y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu wrth ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio. Roedd yr adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r arolwg hwn yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol, gydag ychydig ymatebion negyddol yn unig yn dod i law i nifer cyfyngedig o gwestiynau.

3.1 Rheoli datblygu – dehongli'r canlyniadau

Er mwyn nodi meysydd lle gallai fod lle i wella'r gwasanaeth, rhoddwyd sgôr rifyddol i'r holl ymatebion i'r arolwg. Roedd y rhain yn amrywio o ddeg ar gyfer cytuno'n gryf i ddau ar gyfer anghytuno'n gryf. Yn dilyn hyn, cyfrifwyd sgôr gyfartalog ar gyfer pob cwestiwn. Yna rhoddwyd y cwestiynau i mewn i un o'r categorïau canlynol ar sail y sgoriau a dderbyniwyd:

- Sgoriau o saith a throsodd – mae'r rhain yn gwestiynau lle bo'r adborth yn awgrymu bod gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ein cwsmeriaid.
- Sgoriau o saith ac yn is – mae hyn yn tynnu sylw at feysydd a allai elwa ar beth sylw pellach.

Gellid dadlau bod sgoriau rhwng chwech a saith yn dal i gyfrif fel ymateb cadarnhaol, gan fod cyrraedd y sgôr uchel hon ond yn bosibl os yw mwyafrif yr ymatebion naill ai'n gadarnhaol neu'n amhendiant. Felly mae'r dadansoddiad rhifyddol, a'r trothwy o saith, ond yn cael eu defnyddio'n fan cychwyn ar gyfer nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r adborth manylach a dderbyniwyd fel rhan o'r arolwg a chyfanswm yr ymatebion anffodlon wedi cael eu defnyddio i lywio ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r arolwg ymhellach, sy'n cael ei amlinellu yn adran 3.4 ar gyfer rheoli datblygu a 4.3 ar gyfer cynllunio datblygu.

3.2 Canlyniadau'r arolwg

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniad y dadansoddiad rhifiadol. Mae hyn yn dangos, ar sail yr ymatebion hyn yn unig, bod gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gyfrif yn uchel ei werth ar bron pob agwedd. Dim ond un cwestiwn a dderbyniodd sgôr islaw saith, ac amlygir hwn mewn coch yn y tabl isod.

Rheoli datblygu – Cymesuredd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â phryd i ymgynghori yn hawdd ei ddeall ac yn helpu i osgoi oedi diangen.	7.4
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd safbwynt cymesur a rhesymol o ran nodi natur a graddfa'r asesiad sy'n ofynnol	7.4
Mewn achosion pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu datblygiad, mae'n darparu seiliau clir a rhesymol dros wneud hynny.	7.1

Pan fo gan Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon am gynnig datblygu, mae ei gyngor ar sut y gellir goresgyn y pryderon hyn yn rhesymol ac yn gymesur.	7.4
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ymarferol sy'n helpu i osgoi a/neu leihau'r effeithiau niweidiol ar adnoddau naturiol.*	8
Rheoli datblygu – Eglurder a hyder yng nghyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall	7.7
Mae gennyf hyder yn y cyngor rwyf yn ei dderbyn oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru	8
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi digon o wybodaeth i mi wneud penderfyniad / argymhelliad rhesymegol	8
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth	7.4
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson yn ystod camau gwahanol cynllun	7
Mae categorïau ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn hawdd eu deall (e.e. dim sylw / dim gwrthwynebiad / pryderon)	7.7
Mae ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at bolisi cynllunio cenedlaethol neu leol perthnasol i gefnogi ei gyngor	6.9
Mae gennyf hyder y gallaf holi am eglurhad yn hawdd ar ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad	8.9
Mae gennyf hyder y gellir dibynnu ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith craffu (e.e. mewn apêl cynllunio)	8.3
Rheoli datblygu – Amseroldeb	
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni amserlenni statudol a / neu gytunedig ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau	7.7
Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am estyniad i amserlen statudol / gytunedig, bydd yn gofyn am hyn ar gam cynnar	7.7
Pan fo gwybodaeth annigonol wedi'i darparu gan ddatblygwyr, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i egluro pa wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol	7.4
Rheoli datblygu – Effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ddefnyddiol wrth lywio fy mhenderfyniadau ar yr amodau y dylid eu hatodi i ganiatadau cynllunio*	8.3
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ffactor wrth benderfynu ar geisiadau rwyf wedi delio â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf*	8.6
Yn gyffredinol rwyf yn cytuno â'r argymhellion mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwneud	7.4
Rheoli datblygu – Bodlonrwydd cyffredinol	
Sut fydddech chi'n ystyried eich bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?	8.6

3.3 Sylwadau a dderbyniwyd am wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Derbyniwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i gwestiynau arolwg penodol. Caiff yr ymatebion hyn eu crynhoi isod.

- *Gall y defnydd o'r ymadrodd 'pryderon sylweddol' mewn ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn ddryslyd pan fo'n cael ei ddefnyddio mewn achosion pan nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig. Dylid sicrhau bod yr ymatebion a ddarperir yn parhau i fod*

wedi'u symleiddio, yn glir ac yn gryno ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i gynllunio yn unig

- Awgrymir y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fabwysiadu dull gweithredu mwy pragmatig a realistig wrth roi sylwadau ar geisiadau am addasu fflatiau mewn ardaloedd trefol.
- Dylid darparu rhifau ffôn uniongyrchol ar gyfer swyddogion arbenigol a rhoi gwybod i awdurdodau cynllunio lleol am newidiadau staff
- Mae'r gwasanaeth yn dda iawn ond gall amrywio o swyddog i swyddog o ran pa mor brydlon mae'n cael ei ddarparu
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai prosesau/gweithdrefnau hanfodol (e.e. heriau map llifogydd) yn digwydd yn amlach
- Buddsoddi mewn dogfennau 'Arfer Gorau' i osgoi ailadrodd mewn ymateb i ymgynghoriadau

3.4 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r canfyddiadau

O ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd rydym yn bwriadu adolygu ein categorïau ymateb mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW).

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal rhaglen wella ar y cyd â nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn ddiweddar. Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym wedi symleiddio ein llythyrau ymateb i'w gwneud yn gliriach pa rai o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hymateb sy'n berthnasol i gynllunio, a beth sy'n ymwneud â materion eraill. Rydym hefyd wedi dechrau gwaith ar ddatblygu amodau model, a ddylai helpu i sicrhau bod yr amodau rydym yn eu cynnig yn ein hymatebion yn berthnasol ac yn gymesur.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu adolygu ei arweiniad ar newid defnydd, gyda'r nod o wella cysondeb y cyngor rydym yn ei ddarparu ledled Cymru.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cynyddu'r arweiniad sydd ar gael ar ein gwefan a byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella hyn ymhellach.

Hoffem egluro bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddarau ei Fap Llifogydd bob chwarter. Os oes her yn dal i fynd rhagddo, efallai na fydd yn cyrraedd y diweddariad a amserlennwyd a chaiff ei drosglwyddo i'r un nesaf.

4. Canfyddiadau o Arolwg Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r arolwg cynllunio datblygu, a oedd yn gofyn cwestiynau am y gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau cynllunio lleol ar gynlluniau strategol, megis cynlluniau datblygu lleol. Roedd yr adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r arolwg hwn yn gadarnhaol iawn, gydag un cwestiwn yn unig yn derbyn sgôr islaw chwech. Amlygir hyn yn y tabl isod.

4.1 Canlyniadau'r arolwg

Cynllunio datblygu – cysylltu â staff Cyfoeth Naturiol Cymru	
Pa mor hawdd yw hi i gysylltu â staff perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru	8.3
Cynllunio datblygu – deall rôl Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae gennyf ddealltwriaeth glir o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygu cynlluniau ac arweiniad strategol	8
Rwyf yn ymwybodol o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac rwyf yn defnyddio hyn yn sail ar gyfer ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru	5.7
Cynllunio datblygu – Eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn dryloyw	8
Rwyf yn hyderus y gallaf geisio eglurhad yn hawdd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru am eu hymateb i ymgynghoriad	8.6
Gwnaeth cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ei wneud yn hawdd deall y rhyngweithio rhwng effeithiau amgylcheddol posibl	7.7
Mae unrhyw newidiadau sy'n cael eu hawgrymu i'r cynllun neu bolisi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys esboniad clir ynglŷn â pham y gallai'r newid hwn fod yn ofynnol	7.7
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ynglŷn â sut mae polisiau'r cynllun yn bodloni'r profion cadernid	8
Cynllunio datblygu - Cymesuredd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar risgiau amgylcheddol yn gymesur â'r risgiau a nodwyd	7.6
Cysondeb a dibynadwyedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor cyson drwy bob cam o'r broses cynllun datblygu lleol	7.2
Rwyf yn hyderus y gellir dibynnu ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith craffu	8
Cynllunio datblygu – Effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Arweiniodd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru at wneud newidiadau i bolisiau'r cynllun*	9
Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu ein bod yn gallu cyflawni cynllun sy'n amddiffyn adnoddau naturiol a'r amgylchedd yn well neu'n eu gwella*	9
Cynllunio datblygu – Bodlonrwydd cyffredinol â chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
Yn gyffredinol pa mor fodlon fyddech chi'n ei ddweud eich bod â'r isod:	9
<ul style="list-style-type: none"> Eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru 	
<ul style="list-style-type: none"> Cymhwysedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru i'ch gwaith 	9.4
<ul style="list-style-type: none"> Cysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws ei feysydd cyfrifoldeb 	8.9
Cynllunio datblygu – Tystiolaeth	
Roedd tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall	8

Roedd tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hategu gan resymeg glir ynglŷn â'r arwyddocâd a oedd ynghlwm wrth y dystiolaeth	8.5
Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i wella ein dealltwriaeth o fuddiannau amgylcheddol o fewn ardal y cynllun datblygu lleol	8.5
Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i lywio gweledigaeth a pholisïau ein cynlluniau strategol	9
Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i lywio'r broses o nodi dyraniadau defnydd tir	8.5
Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i sicrhau bod ein hymagwedd at faterion amgylcheddol yn gadarn	9
Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ychwanegu gwerth at ein cynllun, polisi neu strategaeth	9
Cynllunio datblygu – Bodlonrwydd cyffredinol	
Ar y cyfan, pa mor fodlon fyddech chi'n dweud eich bod â'r isod:	
<ul style="list-style-type: none"> y dystiolaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru? 	9
<ul style="list-style-type: none"> Cyflenwi tystiolaeth neu wybodaeth waelodlin ar gyfer gwneud ac asesu cynllun 	8.7
<ul style="list-style-type: none"> Cyngor ar faterion rheoli adnoddau naturiol mewn perthynas â llunio cynllun 	8.6
<ul style="list-style-type: none"> Cyngor ac arweiniad ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig 	9.1
<ul style="list-style-type: none"> Cyngor ac arweiniad ar dirweddau gwarchoddedig 	8.7
<ul style="list-style-type: none"> Cyngor ac arweiniad ar berygl llifogydd ac Asesiad Strategol Canlyniadau Llifogydd 	8.4

Sylwch i nifer o gwestiynau ychwanegol gael eu gofyn am y gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu mewn perthynas ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, ond oherwydd mai dau ymateb yn unig a dderbyniwyd i'r cwestiynau hyn, nid yw'r canlyniadau ystadegol wedi cael eu cynnwys i'w dadansoddi yn y tabl hwn. Roedd yr holl ymatebion yn nodi bod yr ymgeiswyr o leiaf yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniwyd

4.2 Cynllunio datblygu – sylwadau ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Dim ond nifer fechan o sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r arolwg hwn ac roedd pob un bron yn gadarnhaol. Gwnaeth un o'r awdurdodau cynllunio lleol ofyn bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu'r holl archwiliadau cynlluniau datblygu lleol perthnasol, a byddai un arall yn croesawu cyfle i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gam cynharach yn y broses o lunio Canllawiau Cynllunio Atodol.

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru egluro mai ein bwriad bob tro yw mynychu archwiliadau cynllun datblygu lleol os gofynnir i ni wneud hynny. Rydym hefyd yn hapus i roi sylwadau ar Ganllawiau Cynllunio Atodol ar unrhyw gam yn y broses ddrafftio. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi arweiniad (OGN107) i sicrhau bod y gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu mewn perthynas â chynlluniau datblygu yn gyson ledled Cymru.

Atodiad 1: Canlyniadau'r arolwg rheoli datblygu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol

Ynglŷn â'r ymatebydd

Pa mor aml ydych chi wedi delio â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?	
	Nifer o ymatebion
Llai nag unwaith y mis	-
Tuag unwaith y mis	1
Mwy nag unwaith y mis	6

Sut ydych chi'n cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer?	
	Nifer o ymatebion
Defnyddio cyswllt presennol	1
Defnyddio'r broses ymgynghori ffurfiol	6

Pa mor hawdd ydych chi'n ei weld i gysylltu â'r aelod perthnasol o staff?	
	Nifer o ymatebion
Anodd	-
Eithaf anodd	-
Ddim yn hawdd nac yn anodd	-
Eithaf hawdd	3
Hawdd	4
Sgôr gyfartalog	9.1

Gwasanaethau a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr

Gwasanaeth	Nifer o awdurdodau cynllunio lleol a ddefnyddiodd y gwasanaeth	Yn fodlon	Eithaf bodlon	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	Eithaf anfodlon	Yn anfodlon
Cyngor ar gwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	4	2	2	-	-	-
Cyngor ar ddatganiadau amgylcheddol drafft	-			-	-	-
Cyngor ar asesiadau priodol a wnaed o dan y Rheoliadau Cynefinoedd	4	1	3	-	-	-
Cyngor ar asesiadau canlyniadau llifogydd	6	4	2	-	-	-
Cyngor ar Asesiadau Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	-	-	-	-	-	-
Cyngor ar natur statudol safleoedd cadwraeth natur	3	3	-	-	-	-

Cyngor ar rywogaethau gwarchoddedig	7	5	1	-	1	-
Cyngor ar dirweddau gwarchoddedig	4	2	2	-	-	-
Cyngor ar fesurau i reoli risgiau / effeithiau ar ddyfroedd a reolir	2	1	1	-	-	-
Arall – rhowch fanylion	3	-	-	-	-	-

Cyngor cyn gwneud cais

Pa mor aml ydy'ch awdurdod lleol yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyfnod cyn ymgeisio?	
	Nifer o ymatebion
Byth	4
Yn anaml	1
O dro i dro	1
Yn aml	-
Bob amser (lle bo'n berthnasol)	1

Pa mor aml ydy'ch awdurdod lleol yn cyfeirio datblygwyr at Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor cyn ymgeisio?	
	Nifer o ymatebion
Byth	-
Yn anaml	-
O dro i dro	-
Yn aml	5
Bob amser (lle bo'n berthnasol)	2

Cymesuredd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar bryd i ymgynghori yn hawdd ei ddeall ac yn helpu i osgoi oedi diangen.	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd safbwynt cymesur a rhesymegol o ran nodi natur a graddfa'r asesiad sy'n ofynnol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2

Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Mewn achosion pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu datblygiad, mae'n rhoi seiliau clir a rhesymol dros wneud hynny.	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.1

Pan fo gan Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon am gynnig datblygu, mae ei gyngor ar sut y gellir goresgyn y pryderon hyn yn rhesymol ac yn gymesur.	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor ymarferol sy'n helpu i osgoi a / neu leihau effeithiau niweidiol ar adnoddau naturiol.*	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	1
Sgôr gyfartalog	8

Eglurder a hyder yng nghyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.7

Mae gennyf hyder yn y cyngor rwyf yn ei dderbyn oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru	
	Nifer o ymatebion

Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	7
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	8

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu digon o wybodaeth i mi wneud penderfyniad / argymhelliad rhesymegol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	7
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	8

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson yn ystod camau gwahanol cynllun	
	Nifer yr ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	3
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	-
Gwag	1
Sgôr gyfartalog	7

Mae categorïau ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn hawdd eu deall (e.e. dim sylw / dim gwrthwynebiad / pryderon)	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	1
Sgôr gyfartalog	7.7

Mae ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol i gefnogi ei gyngor	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	6.9

Rwyf yn hyderus y gallaf geisio eglurhad yn hawdd ar ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	3
Sgôr gyfartalog	8.9

Rwyf yn hyderus y gellir dibynnu ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith craffu (e.e. mewn apêl cynllunio)	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	1
Gwag / nid wyf yn gwybod	1
Sgôr gyfartalog	8.3

Amseroldeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni amserlenni statudol a / neu gytunedig ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.7

Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cais am estyniad i amserlen statudol / gytunedig, bydd yn gwneud cais am hyn ar gam cynnar	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.7

Pan fo gwybodaeth annigonol wedi'i darparu gan ddatblygwyr, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i egluro pa wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ddefnyddiol o ran llywio fy mhenderfyniadau ar yr amodau y dylid eu hatodi i ganiatadau cynllunio*	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	1
Sgôr gyfartalog	8.3

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ffactor wrth benderfynu ar geisiadau rwyf wedi delio â nhw dros y 12 mis diwethaf*	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	3
Sgôr gyfartalog	8.6

Yn gyffredinol rwyf yn cytuno â'r argymhellion y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwneud	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Sgôr gyfartalog	7.4

Bodlonrwydd cyffredinol

Sut fydddech chi'n sgorio eich bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?	
	Nifer o ymatebion
Anfodlon	-
Eithaf anfodlon	-
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	-
Eithaf bodlon	4
Yn fodlon	3
Sgôr gyfartalog	8.6

Atodiad 2: Canlyniadau'r arolwg cynllunio datblygu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol

Ynglŷn â'r ymatebydd

Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi ceisio cyngor oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw rai o'r testunau canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)	
	Nifer o ymatebion
Paratoi astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (e.e. astudiaethau capasiti)	1
Aseiad Amgylcheddol Strategol	2
Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd	2
Aseiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd	3
Cynllun Datblygu Lleol cyn-adneuo	1
Cynllun Datblygu Lleol adneuo	-
Canllaw cynllunio atodol	4
Arall, rhowch y manylion isod	3
	Briff datblygu
	Cyngor ar baratoi Papur Cefndir Ardaloedd Tirwedd Arbennig
	Tystiolaeth i gefnogi safbwynt yr awdurdodau ar yr Archwiliad Cyhoeddus

Sut rydych chi fel arfer yn cysylltu â staff Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ar faterion cynllunio datblygu?	
	Nifer o ymatebion
Drwy broses ymgynghori ffurfiol	7

Pa mor hawdd yw hi i gysylltu â'r staff perthnasol yn Cyfoeth Naturiol Cymru?	
	Nifer o ymatebion
Anodd	-
Eithaf anodd	-
Ddim yn hawdd nac yn anodd	1
Eithaf hawdd	4
Hawdd	2
Sgôr gyfartalog	8.3

Dealltwriaeth o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gennyf ddealltwriaeth glir o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â datblygu cynlluniau ac arweiniad strategol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	1
Sgôr gyfartalog	8

Rwyf yn ymwybodol o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn defnyddio hyn yn sail ar gyfer ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	3
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	2
Cytuno'n gryf	-
Gwag / nid wyf yn gwybod	1
Sgôr gyfartalog	5.7

Eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol yn glir ac yn dryloyw	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	7
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	8

Rwyf hyderus y gallaf geisio eglurhad yn hawdd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu hymateb i ymgynghoriad	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	2
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	8.6

Gwnaeth cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ei wneud yn hawdd deall y rhyngweithio rhwng effeithiau amgylcheddol posibl	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	7.7

Mae unrhyw newidiadau sy'n cael eu hawgrymu gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cynllun neu'r polisi yn cynnwys esboniad clir ynglŷn â pham y gallai'r newid hwn fod yn ofynnol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	6
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	7.7

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir o ran sut mae polisiâu'r cynllun yn bodloni'r profion cadernid	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	5
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	2
Sgôr gyfartalog	8

Cyngor a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru – cymesuredd

Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am risgiau amgylcheddol yn gymesur â'r risgiau a nodwyd	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	2
Sgôr gyfartalog	7.6

Cysondeb a dibynadwyedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor cyson drwy bob cam o'r broses Cynllun Datblygu Lleol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	-
Nid wyf yn gwybod / gwag	2
Sgôr gyfartalog	7.2

Rwyf yn hyderus y gellir dibynnu ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith craffu	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	1
Nid wyf yn gwybod / gwag	1
Sgôr gyfartalog	8

Effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Arweiniodd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru at wneud newidiadau i bolisiau'r cynllun	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	3
Nid wyf yn gwybod / gwag	1
Sgôr gyfartalog	9

Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu ein bod wedi gallu cyflawni cynllun sy'n amddiffyn neu'n gwella adnoddau naturiol a'r amgylchedd yn well	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	3
Nid wyf yn gwybod / gwag	1
Sgôr gyfartalog	9

Ar y cyfan, pa mor fodlon fydddech chi'n dweud eich bod â'r canlynol:

Eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	
	Nifer o ymatebion
Anfodlon	-
Eithaf anfodlon	-
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	-
Eithaf bodlon	3
Yn fodlon	3
Nid wyf yn gwybod / gwag	1
Sgôr gyfartalog	9

Cymhwysedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru i'ch gwaith	
	Nifer o ymatebion
Anfodlon	-
Eithaf anfodlon	-
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	-
Eithaf bodlon	2
Yn fodlon	5
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	9.4

Cysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws ei feysydd cyfrifoldeb	
	Nifer o ymatebion
Anfodlon	-
Eithaf anfodlon	-
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	-
Eithaf bodlon	4
Yn fodlon	3
Nid wyf yn gwybod / gwag	-
Sgôr gyfartalog	8.9

Tystiolaeth a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Ydych chi wedi ceisio tystiolaeth amgylcheddol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i lywio eich cynllun neu bolisi?	
	Nifer o ymatebion
Ydw	4
Nac ydw	3

Roedd tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei deall	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno neu'n anghytuno	-
Cytuno	4
Cytuno'n gryf	-

Nid wyf yn gwybod / gwag	3
Sgôr gyfartalog	8

Roedd tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hategu gan resymeg glir ynglŷn â'r arwyddocâd sydd ynghlwm wrth y dystiolaeth	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno neu'n anghytuno	-
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	1
Gwag / nid wyf yn gwybod	3
Sgôr gyfartalog	8.5

Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i wella ein dealltwriaeth o fuddiannau amgylcheddol o fewn ardal y Cynllun Datblygu Lleol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	1
Gwag / nid wyf yn gwybod	3
Sgôr gyfartalog	8.5

Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i lywio gweledigaeth a pholisïau ein cynlluniau strategol	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	1
Cytuno'n gryf	1
Gwag / nid wyf yn gwybod	5
Sgôr gyfartalog	9

Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i lywio'r broses o nodi dyraniadau defnydd tir	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	3
Cytuno'n gryf	1
Gwag / nid wyf yn gwybod	3
Sgôr gyfartalog	8.5

Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i sicrhau bod ein hymagwedd at faterion amgylcheddol yn gadarn	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	2
Cytuno'n gryf	2
Gwag / nid wyf yn gwybod	3
Sgôr gyfartalog	9

Gwnaeth tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ychwanegu gwerth at ein cynllun, polisi neu strategaeth	
	Nifer o ymatebion
Anghytuno'n gryf	-
Anghytuno	-
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	-
Cytuno	2
Cytuno'n gryf	2
Gwag / nid wyf yn gwybod	3
Sgôr gyfartalog	9

Ar y cyfan, pa mor fodlon fydddech chi'n dweud eich bod â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru?	
	Nifer o ymatebion
Anfodlon	-
Eithaf anfodlon	-
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	-
Eithaf bodlon	2
Yn fodlon	2
Nid wyf yn gwybod / gwag	3
Sgôr gyfartalog	9

Ydych chi wedi cysylltu'n uniongyrchol â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod y 12 mis diwethaf?	
	Nifer o ymatebion
Ydw	2
Nad ydw	5

Ydych chi wedi cysylltu'n uniongyrchol â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd?	
	Nifer o ymatebion
Ydw	2
Nac ydw	5

Sut fyddech chi'n sgorio'r gwasanaethau canlynol a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

Cyflenwi tystiolaeth neu wybodaeth waelodlin ar gyfer gwneud ac asesu cynllun	
	Nifer o ymatebion
Eithaf agos ati, ond gallai elwa ar rai newidiadau	4
Gwasanaeth da – fyddwn i ddim yn newid dim	2
Nid wyf yn gwybod	1
Sgôr gyfartalog	8.7

Cyngor ar faterion rheoli adnoddau naturiol mewn perthynas â llunio cynllun	
	Nifer o ymatebion
Eithaf agos ati, ond gallai elwa ar rai newidiadau	4
Gwasanaeth da – fyddwn i ddim yn newid dim	3
Nid wyf yn gwybod	0
Sgôr gyfartalog	8.6

Cyngor ac arweiniad ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig	
	Nifer o ymatebion
Eithaf agos ati, ond gallai elwa ar rai newidiadau	3
Gwasanaeth da – fyddwn i ddim yn newid dim	4
Nid wyf yn gwybod	0
Sgôr gyfartalog	9.1

Cyngor ac arweiniad ar dirweddau gwarchoddedig (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol)	
	Nifer o ymatebion
Eithaf agos ati, ond gallai elwa ar rai newidiadau	2
Gwasanaeth da – fyddwn i ddim yn newid dim	1
Nid wyf yn gwybod	4
Sgôr gyfartalog	8.7

Cyngor ac arweiniad ar berygl llifogydd ac Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd	
	Nifer o ymatebion
Eithaf agos ati, ond gallai elwa ar rai newidiadau	4
Gwasanaeth da – fyddwn i ddim yn newid dim	1
Nid wyf yn gwybod	2
Sgôr gyfartalog	8.4

Please DO NOT DELETE THIS SECTION BREAK



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru